**Rhedeg i ffwrdd neu droi tuag at**

Yn ystod y pandemig presennol un o'r rhaglenni teledu a wyliais fwyaf oedd 'A Place in the Sun' - wedi'i ail-ddangos yn ddiddiwedd ar amrywiaeth o sianeli mae'n cynnig cyfleoedd di-ri i freuddwydio am ddianc rhag y cyfan. Gall y syniad o ddianc rhag y cyfan fod yn beth da - mae angen gwyliau arnom ni i gyd yn achlysurol; mae angen lle neu amser i orffwys arnom ni i gyd. Ond weithiau gall newid droi yn ffoi. Bydd rhai wedi gweld y comedi clasurol o'r 1970au 'The fall and rise of Reginald Perrin', mae rhai ohonom ni hyd yn oed yn ddigon hen i fod wedi gweld y rhaglen y tro cyntaf yr ymddangosodd yn hytrach nag fel clasur teledu ailadroddus! Ynddi, mae Reggie yn ceisio dianc o ddiflastod ei fywyd anghyflawn trwy adael popeth ar ôl, gwraig, teulu, ffrindiau, ei swydd - mae'n gadael ei holl ddillad ar y lan ac yn nofio ymaith i ddechrau eto.

Efallai y bydd rhai ohonom ni, ar ryw adeg neu'i gilydd ac yn enwedig yn yr amgylchiadau presennol, fel Reginald Perrin, yn breuddwydio am adael popeth ar ôl. Yr holl gysylltiadau a chyfrifoldebau sy'n ein clymu, y dygnu arni beunyddiol, ein diffyg brwdfrydedd am ein gwaith, ein hastudiaethau neu ein teuluoedd, pwysau ein gorffennol a'n methiannau, y pryderon am y dyfodol - yr holl bethau sy'n ein diffinio.

Byddai mor hyfryd bwrw ymaith holl bwysau bywyd, diflannu, a dechrau eto mewn man arall gyda phasbort newydd a chyfrif gyda banc y Swistir. Yn ein ffantasïau, byddai ffoi rhag popeth yn ein rhyddhau i ddechrau eto yn berson newydd, i ddod yn rhywun arall sy'n fwy deallus, yn fwy llwyddiannus, yn fwy poblogaidd, neu'n fwy deniadol. Yn fwy fel y person rydw i eisiau bod. Gall fod yn ddyhead cwbl hunanol!

Mae gan y Beibl hefyd stori enwog am rywun yn ffoi rhag cyfrifoldebau - stori Jona. Y tro cyntaf i Dduw ei alw, roedd y cyfrifoldeb yn ormod ac fe redodd ymaith, cyn belled â phosib, gadawodd bopeth ar ôl i ddechrau o'r newydd yn Tarsis (a oedd ar y pryd ym mhen draw'r byd hysbys). Wrth gwrs, ni wnaeth rhedeg o'r alwad ddim daioni iddo, ni allwn ni guddio rhag Duw. Ni allwn ni redeg oddi wrth pwy ydym ni. Felly, ar ôl cael ei hun mewn cyfog morfil, fe'i galwyd yr eildro a'r tro hwn mae'n gadael popeth, i wneud ewyllys Duw. Ef yw negesydd etholedig Duw, ac er ei fod yn gyndyn, trwyddo gelwir pobl Ninefe i wisgo sachliain a lludw yn arwydd gweladwy o edifeirwch, ac fe gânt eu hachub.

Yn Efengylau Mathew, Marc a Luc, dywedir wrthym am hanes pedwar pysgotwr sy'n gadael popeth ar ôl, holl gysylltiadau a rhwymau gwaith a theulu, i ddilyn Iesu. Ond maen nhw'n gadael popeth mewn ymateb i'r alwad: Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion.

Mae'r alwad i fod yn ddisgybl yn alwad i ddarganfod mewn ffordd newydd yr hunaniaeth a roddodd Dduw iddyn nhw -

Fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion.

Mae'r alwad yn sefydlu perthynas rhwng beth yw'r disgyblion, a'r hyn y gelwir nhw i fod. Daw eu gwaith cyffredin - pysgota, tynnu cynhaliaeth o dywyllwch y môr, yn arwydd o wirionedd dyfnach, gan dynnu dynion a menywod o dywyllwch pechod a marwolaeth, i oleuni Crist. Nid anwybyddir yr hyn sy'n eu diffinio (bod yn bysgotwyr, eu teulu, ac ati), ond daw yn gefndir i alwad daer i hunan-ddealltwriaeth ddyfnach, galwad Gras ydyw.

Yn yr un modd, caiff pob un ohonom ni ein galw, ein galw i adnabod Duw yn ddyfnach fyth a dod, drwy hyn, i fwy o hunanymwybyddiaeth - ac yn y diwedd dyma hanfod yr alwad i edifeirwch. Nid yw Gras yn mynd â ni o un hunaniaeth i'r llall ond mae'n agor dyfnder newydd a rhyfeddol o'n hunaniaeth ym mywyd Duw. Mae Gras yn ein perffeithio. Mae'r disgyblion yn gadael popeth ar ôl, ond nid i ddianc ond, wrth ymateb i'r alwad, i ddarganfod gwir ddyfnderoedd pwy ydyn nhw.

I rai, fel y disgyblion yn yr Efengyl, bydd yr alwad hon yn gofyn am ymwadu â rhywbeth - wrth broffesu bywyd crefyddol, er enghraifft. Ond i'r mwyafrif o bobl, ni fydd yr alwad yn gofyn am ymwadiad llwyr, ond gweledigaeth ehangach o bwy ydym ni, a'n gwerth yng nghynllun Duw. Mae'n alwad sy'n gofyn ar i ni hefyd gofleidio gweledigaeth estynedig o bwy yw pobl eraill yn ogystal.

Mae galwad Iesu yn ystod tymor y Grawys, sy'n dechrau gyda'r symbol o ludw, yr un peth â neges Jona i bobl Ninefe - mae'n alwad i edifeirwch, oherwydd bod teyrnas nefoedd wedi agosáu; mae'n alwad i beidio â chaniatáu i bechod, a holl fethiannau bywyd, ein diffinio. Ond yn fwy na hyn, mae'n alwad, trwy ras, i droi at Grist yn ddisgybl.

Gellir gweld gras fel anrheg am ddim a gynigir i bawb - afon sy'n llifo o Dduw lle gallwn nofio yn rhydd os ydym yn dewis - **os ydym yn nofio gyda'r llif mae'n dychwelyd at Dduw**. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yn well gan y mwyafrif dreulio'u hamser yn ymladd yn erbyn y llif, gan nofio i bob cyfeiriad yn yr ymgais i ddarganfod eu ffordd eu hunain. Oherwydd eu bod yn nofio yn erbyn y llif mae popeth yn ymddangos yn anoddach, mae dryswch ac ansicrwydd yn teyrnasu, does ryfedd fod pobl eisiau dianc a dechrau eto. Mae'r Eglwys yn defnyddio gair Groeg i ddisgrifio'r broses o droi i nofio gyda gras - 'metanoia' ac mae'n cynrychioli gwir newid cyfeiriad, newid edifeiriol, tuag at Iesu Grist.

Mae'r ysfa i ddianc rhag pwy ydym yn aml yn pwyso'n drwm arnom. Ond nid oes unrhyw ddalen newydd hollol lân yn y bywyd hwn: mae pwy ydym ni wedi ei glymu'n agos at y rhai rydym ni'n byw gyda nhw, y rhai sydd wedi gofalu amdanon ni neu wedi ein brifo, gyda'n cymuned, gyda'n gwaith a'n hamser hamdden. Mae Reggie Perrin yn darganfod hyn pan sylweddola ei fod yn dal i garu ei wraig ac yn y darganfyddiad hwn caiff hadau llwyddiant eu hau.

Nid yw galwad gras Duw yn cynnig hunaniaeth newydd inni, y bywyd ffantasi y gallem fod wedi dyheu amdano erioed. Mae'r alwad i fod yn ddisgybl yn alwad i gofleidio dealltwriaeth ddyfnach fyth o bwy ydym ni, pwy y cawn ein galw i fod, y gelwir y rhai o'n cwmpas i fod - mae'n alwad i Gariad nid hunanoldeb.